| | |
|---|---|
| **Dyddiad Creu:** | 24/05/2018 |
| **Dyddiad Cyhoeddi:** | 08/06/2018 |
| **Rhif Fersiwn:** | 1.2 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Maes Gwaith:** | Gwasanaethau Cwsmeriaid |
| **Manylion Cyswllt:** | Rob Waggett, Swyddog Datblygu Gwasanaethau Cwsmeriaid, wagger@caerffili.gov.uk, Ffôn: 01443 866554 |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Hysbysiad Preifatrwydd Gwasanaethau Cwsmeriaid |
| **Disgrifiad yr Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd y hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych wrth gwblhau cais am wasanaethau cwsmeriaid drwy Ffôn, Wyneb i Wyneb, E-bost neu ohebiaeth Ysgrifenedig. |

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

## Pwrpas a sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio'ch gwybodaeth

### Pwrpas y prosesu

Mae Gwasanaethau Cwsmeriaid Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn darparu man mynediad i'r cyhoedd i ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Bydd yr wybodaeth a gasglwn gennych yn cael ei hanfon ymlaen i'r maes gwasanaeth perthnasol sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth y gofynnir amdano. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu'r wybodaeth a ddarparwn i ddefnyddwyr gwasanaethau ac fe fydd dolenni i wybodaeth bellach ar sut y bydd meysydd gwasanaeth yn defnyddio'ch gwybodaeth, gan gynnwys y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu, pa mor hir y cedwir yr wybodaeth ac unrhyw rannu o'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill ar gael yma pan gwblheir.

## Pwy gaiff mynediad at eich gwybodaeth

### Pwy yw'r Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones

Rheolwraig Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol | Corporate Information Governance Manager
Email: JONESJK@CAERPHILLY.GOV.UK
Tel: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolwyr Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth i gael rhagor o wybodaeth.

**Ceisiadau am wybodaeth**
Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gofnodir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 1998.

Os yw'r wybodaeth a ddarperir gennych yn ddarostyngedig i gais o'r fath, lle bo modd, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau. Os ydych chi'n gwrthwynebu rhyddhau'ch gwybodaeth, byddwn yn atal eich gwybodaeth os yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth

**Manylion y cyfnod cadw**

Mae’r cyfnod mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arfer gorau.

Mae gwybodaeth am drafodion taliadau Cerdyn Debyd a Cherdyn Credyd yn cael ei chadw am saith mis

Bydd recordiadau galwadau'r Ganolfan Gyswllt yn cael eu cadw am o leiaf 12 mis, ond byddant yn cael eu dileu ar ôl 24 mis, oni bai eu bod wedi'u cadw at ddiben penodol.

Bydd gwybodaeth a gofnodir ar y system sy'n trosglwyddo'ch gwybodaeth i'r maes gwasanaeth perthnasol yn cael ei chadw am o leiaf 12 mis, ond fe'i dileir ar ôl 24 mis, oni bai ei bod wedi'i chadw at ddiben penodol.

Bydd Ceisiadau am Fathodyn Glas sydd wedi cael eu Gwrthod, eu Canslo neu eu Diddymu yn cael eu cadw ar y Gwasanaethau Gwella Bathodynnau Glas am 365 diwrnod cyn dileu data'r cais. Bydd y llinell amser hon yn cael ei hadolygu a gellid ei newid

## Eich Hawliau (Gan Gynnwys Gweithdrefn Gwyno)

### Eich hawliau o dan y Diogelu Data

Mae Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i wrthrych y data (y rhai y mae'r wybodaeth amdanynt):

- Hawl mynediad y gwrthrych - Mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Gais Gwrthrych am Wybodaeth
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i unioni
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu prosesu
- Yr hawl i wrthwynebu

- Yr hawl i gyfyngu prosesu
- Hawliau ynghylch gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael o: www.ico.org.uk

**Gweithdrefn Gwyno**

Os ydych chi'n gwrthwynebu'r ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn trin eich data, mae gennych hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth a fanylir ar frig y ddogfen hon sy'n amlinellu'ch materion.

Os ydych chi'n parhau'n anfodlon, mae gennych hawl i gwyno hefyd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon i gael rhagor o wybodaeth am y broses gwyno.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints.